Dewisiadau Tai ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Lluniwyd y llyfryn hwn i roi'r holl wybodaeth y byddwch ei hangen wrth edrych ar eich dewisiadau tai ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n rhoi golwg dros y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael gan amrywiaeth o wahanol sefydliadau os ydych yn chwilio am gartref newydd. Mae hefyd yn amlinellu cefnogaeth a chyngor sydd ar gael yn y Fwrdeistref yn ogystal â chymorth i helpu i chi fyw'n annibynnol.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar bob un o'r pynciau yn y llyfryn trwy gysylltu â'r adran neu sefydliad perthnasol – mae manylion cysylltu pob un o'r sefydliadau yng nghefn y llyfryn.

Arweiniad yw'r llyfryn hwn er mwyn i chi allu cael rhagor o wybodaeth a, thra'r ydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir a diweddar, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw anghywirdeb neu ddiffyg ynddo.

Adran A – Eich Dewisiadau Tai

Tai'r Cyngor

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw perchennog a rheolwr amrywiaeth o eiddo yn y Fwrdeistref, o fflatiau un ystafell a llety ymddeol i fflatiau a thai.

Gwneud Cais am Dai'r Cyngor

I wneud cais am Dai'r Cyngor rhaid i chi lenwi ffurflen gais am dy a'i ddychwelyd i un o swyddfeydd tai lleol y Cyngor neu'r Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam. Os byddwch angen unrhyw gymorth ychwanegol i lenwi'r ffurflen, mae staff yn y swyddfeydd tai lleol ar gael i'ch helpu.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn llawn ac yn gywir. Caiff tai eu neilltuo ar sail pwyntiau a chaiff y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen gais ei defnyddio i benderfynu faint o bwyntiau sydd gennych hawl iddynt.

Mae'r llyfryn 'Gwneud Cais am Dai' yn rhoi'r holl wybodaeth sydd angen i chi wybod i wneud cais. Mae'r llyfryn hwn a'r ffurflen Cais am Dy i'w cael o unrhyw un o swyddfeydd tai lleol Cyngor Wrecsam neu'r Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam (gwelwch adran C i gael manylion y swyddfeydd tai lleol). I'r rhai sy'n methu mynd i'r swyddfeydd tai oherwydd materion symudedd, mae staff ar gael i drefnu ymweld â chartrefi.

Dewisiadau Tai'r Cyngor i'r rhai gydag Anghenion Arbennig

Eiddo Addasedig

Addaswyd rhai o eiddo'r Cyngor yn arbennig ar gyfer ymgeiswyr anabl ac may Cyngor Wrecsam yn ceisio neilltuo'r eiddo hwn i bobl sydd angen eiddo addasedig. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn llenwi Adran 11 ffurflen Cais am Dy'r Cyngor i'w ystyried i gael eiddo addasedig.

Ceisiadau gan Denantiaid Presennol y Cyngor

Mae croeso i denantiaid presennol y Cyngor sy'n dymuno trosglwyddo i eiddo mwy addas yn y Fwrdeistref Sirol wneud cais.

Fel arfer bydd gofyn i geiswyr fod yn denant diogel Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyn gwneud cais i drosglwyddo, oni bai fod yr eiddo wedi dod yn anaddas i'w hanghenion, e.e. oherwydd newid mewn amgylchiadau teuluol, rhesymau iechyd ac ati.

I gael eich ystyried am neilltuad, rhaid i chi beidio â bod wedi torri unrhyw agwedd ar amodau eich tenantiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- materion cyfredol gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- cyflwr mewnol yr eiddo'n wael o ran gwaith trwsio ac addurno sy'n gyfrifoldeb i chi

- unrhyw gamau cyfredol yn cael eu cymryd gan y Cyngor oherwydd cyflwr gwael eich gardd
- unrhyw gamau'n cael eu cymryd yn eich erbyn gan y Cyngor trwy'r Llysoedd Sirol

Byddwch yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig pa gamau sydd angen i chi eu cymryd er mwyn cael eich ystyried am neilltuad.

Os oes gennych ddyledion cysylltiedig â thai, ôl-ddyledion rhent, arian i'w dalu ac ati i ni, bydd eich blaenoriaeth yn is ar y rhestr aros trwy dynnu pwyntiau cosb (gwelwch yr adran yn y llyfryn 'Gwneud Cais am Dai' ar Asesu eich Pwyntiau).

Cydgyfnewid a Ffeirio Tai

Os ydych yn denant diogel y Cyngor neu Gymdeithas Dai, mae gennych hawl i ffeirio (cyfnewid) eich cartref gyda thenant arall Cymdeithas Dai neu denant diogel y Cyngor. Rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig y Cyngor neu Gymdeithas Dai yn gyntaf a dim ond dan rai amgylchiadau y gallwch gael eich gwrthod, er enghraifft: os bydd yr eiddo'n rhy fawr neu'n rhy fach i'ch anghenion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn tanysgrifio i Ffeirio Tai. Gwefan yw hon sy'n galluogi i denantiaid y Cyngor a Chymdeithasau Tai gael hyd i'w ty cyfnewid delfrydol, gan chwilio am dai cyfatebol gyda miloedd o denantiaid eraill o bob rhan o'r wlad. Mae Ffeirio Tai'n hawdd ei ddefnyddio gyda pharu effeithiol. Bydd cannoedd o deuluoedd yn ffeirio cartrefi bob mis trwy'r gwasanaeth.

Mae'r wefan yn gallu rhoi diweddariadau a chynnig tai cyfatebol i chi trwy e-bost, neges testun neu eich cyfrif ar-lein. Mae cofrestru'n rhad ac am ddim, yn hawdd a diogel trwy'r wefan.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd neu'n gwybod am rywun fyddai'n hoffi cymryd rhan ond sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd, mae modd cael ffurflen gais Ffeirio Cartref o'r Swyddfeydd Tai Lleol neu gallwch gael mynediad am ddim i'r rhyngrwyd yn unrhyw lyfrgell yn y Fwrdeistref Sirol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa dai leol neu'r Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam. Gallwch hefyd fynd i'w gwefan yn www.homeswapper.co.uk

Cymdeithasau Tai

Cyrff dielw, annibynnol yw Cymdeithasau Tai sy'n adeiladu a rheoli tai ac yn rhoi cefnogaeth i'r rhai hynny sydd angen tai.

Yn ardal Wrecsam mae nifer o eiddo dan reolaeth gwahanol Gymdeithasau Tai. Yn wahanol i'r Cyngor, mae Cymdeithasau Tai'n gallu codi eiddo newydd ac, felly, gall nifer yr eiddo sydd ganddynt gynyddu yn y dyfodol.

Hefyd mae gan Gymdeithasau Tai eu rhestrau aros eu hunain y byddant yn neilltuo 50% o'u heiddo gwag ohonynt. Caiff yr 50% arall eu 'henwebu' i'r Cyngor (gwelwch dan 'Enwebiadau'). Yn ogystal â bod ar restr aros y Cyngor gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Cymdeithasau Tai. I gael manylion y Cymdeithasau Tai gydag eiddo ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gwelwch Adran C.

Enwebiadau

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynnu bod Cymdeithasau Tai yn helpu'r Cyngor gael hyd i lety i'r rhai mewn angen. Rhaid iddynt ofyn i'r Cyngor roi enwau, h.y. "enwebeion" ar gyfer o leiaf 50% o'u heiddo sy'n dod yn wag. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu "enwebu" ymgeiswyr o'i rhestr aros am dai ei hun i Gymdeithasau Tai gydag eiddo yn y Fwrdeistref.

Os byddwch yn dod yn denant Cymdeithas Dai, bydd eich tenantiaeth yn debyg iawn i denantiaeth y Cyngor er y bydd eich hawliau ychydig yn wahanol. Mae rhenti'n fforddiadwy a gallwch hawlio budd-dal tai os ydych yn derbyn incwm isel.

Os ydych ar restr aros y Cyngor ac eisiau cael eich ystyried am enwebiad, dylech ateb 'Ydw' i'r cwestiwn ar dudalen 12 Ffurflen Cais am Dy'r Cyngor.

Eiddo Preifat ar Rent

Efallai y byddwch hefyd eisiau ystyried rhentu gan landlord preifat. Mae nifer o eiddo preifat ar rent yn Wrecsam a'r eiddo hwn yn cael ei hysbysebu fel arfer yn y papur lleol neu drwy asiantau gosod lleol. Fel arfer bydd angen i chi dalu blaendal ac un mis o rent ymlaen llaw i sicrhau tenantiaeth breifat. Efallai y gallwch gael cymorth Budd-dal Tai tuag at eich rhent.

Mae rhestr lawn o asiantau gosod lleol ar gael ar ein gwefan yn www.wrecsam.gov.uk dan 'Tai' – Cael hyd i gartref newydd.

Prynu Eiddo

Os gallwch chi fforddio gwneud hynny, efallai y byddwch eisiau ystyried prynu eich eiddo eich hun. Mae nifer o Werthwyr Tai yn Wrecsam fydd yn gallu helpu i chi gael hyd i beth ydych yn chwilio amdano ogystal â gwefannau.

Mae'n syniad da cael cyngor ariannol cynghorydd ariannol annibynnol, banc neu gymdeithas adeiladu cyn i chi fynd ymlaen gyda phrynu cartref newydd i sicrhau eich bod yn gallu fforddio'r holl gostau cysylltiedig â phrynu eiddo.

Perchentyaeth Cost Isel

Bwriad Perchentyaeth Cost Isel yw cynorthwyo pobl sy'n methu fforddio prynu eiddo addas i'w hanghenion ar y farchnad agored. Mae tîm Strategaeth Dai Cyngor Wrecsam yn gweithio gyda Chymdeithasau Tai a datblygwyr i ddarparu cartrefi rhad sy'n fforddiadwy. Mae amryw ddewisiadau ar gael i helpu pobl gamu ar yr ysgol dai, gan gynnwys cynlluniau rhanberchenogaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dewisiadau perchenogaeth cost isel, mae'r Cyngor yn gweithredu cofrestr sy'n cael ei gweinyddu gan Gymdeithas Tai Clwyd. Pan ddaw eiddo ar gael i'w brynu, bydd y Gymdeithas Dai'n cysylltu â cheiswyr ar y gofrestr gyda manylion.

Mae llyfryn gwybodaeth a ffurflen gofrestru ar gael i'w lawrlwytho ar-lein yn www.wrecsam.gov.uk dan Tai - Cael hyd i gartref newydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag adran y Strategaeth Dai ar 01978 315300 neu e-bost affordablehousing@wrexham.gov.uk.

Dewisiadau Tai ar gyfer Pobl Hyn

Llety Ymddeol

Mae gan Gyngor Wrecsam a chymdeithasau tai lleol nifer o gynlluniau llety ymddeol ar hyd a lled y Fwrdeistref. Llety ymddeol yw grwp o eiddo heb ddodrefn a luniwyd gydag anghenion pobl hyn mewn golwg.

Mae gan bob tenant ei fflat ar wahân, fflat un ystafell neu dy unllawr ei hun ac mae warden a gwasanaeth larwm cymunedol 24 awr rhag ofn argyfyngau.

I gael rhagor o wybodaeth ar lety ymddeol, gallwch gysylltu â swyddfeydd tai lleol Cyngor Wrecsam neu unrhyw un o'r cymdeithasau tai lleol (gwelwch adran C i gael manylion y swyddfeydd tai lleol a Chymdeithasau Tai).

Llety addas ar gyfer pobl hyn

Drwy'r fwrdeistref sirol i gyd mae nifer o eiddo'r Cyngor a Chymdeithasau Tai sy'n cael eu neilltuo i bobl hyn oherwydd oed tenantiaid presennol, lleoliad neu fath o eiddo, fel tai unllawr a fflatiau llawr isaf. Mae polisi gosod lleol ar gyfer yr eiddo hwn. Mae hyn yn golygu bod y fflatiau hyn, fel arfer, yn cael eu gosod naill ai i geiswyr dros 50 oed neu geiswyr gydag anghenion meddygol sydd angen llety llawr isaf.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa dai leol neu unrhyw un o'r cymdeithasau tai lleol (gwelwch adran C i gael manylion cysylltu).

Abbeyfield

Sefydliad dielw a Chymdeithas Dai yw Abbeyfield sy'n ymroddi i wneud bywydau pobl hyn yn rhwyddach a mwy boddhaus. Mae Abbeyfield yn helpu pobl i fyw'n annibynnol trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, i gyd yn gysylltiedig â'r gymuned leol. Bydd Abbeyfield yn darparu tai ac yn rhoi cefnogaeth i bobl hyn nad yw mwyach yn teimlo y gallant ddod i ben â byw yn eu cartrefi eu hunain neu nad ydynt eisiau byw ar eu pennau'u hunain. Ar hyn o bryd mae Abbeyfield yn berchen ac yn rheoli 2 uned tai gwarchod yn Wrecsam sy'n cynnwys fflatiau un ystafell.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Abbeyfield Wrecsam ar: 01978 364294. Gwefan: www.abbeyfield.com dan 'Accommodation Search'.

Tai Gofal Ychwanegol

Lluniwyd tai Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hyn sydd ag amrywiol anghenion gofal a chefnogaeth. Mae'n gynllun tai lle mae modd cynnig gofal a chefnogaeth ar y safle. Mae gan gynlluniau Gofal Ychwanegol dy bwyta ac amrywiol gyfleusterau cymunedol ar y safle hefyd fel sinema, cyfleusterau TG ac ystafelloedd hobïau / gemau. Mae gan holl denantiaid eu rhandai eu hunain y gallant naill ai eu rhentu neu brynu cyfran hyd at 90%.

Mae cynllun Gofal Ychwanegol cyntaf Wrecsam yn cael ei ddatblygu ym Mhlas Madoc gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn ac mae disgwyl iddo fod yn barod erbyn yr hydref 2011. Bydd y cynllun yn 54 o randai i'w rhentu neu brynu (hyd at 90% o'r pris prynu).

I gofrestru'ch diddordeb neu i gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â Chlwyd Alyn ar 0800 183 5757.

Cartrefi Gofal Preswyl a Chartrefi Nyrsio

Mae nifer o gartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio yn y Fwrdeistref sy'n darparu ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth neu ofal nyrsio nad oes modd eu darparu yn eu cartrefi eu hunain. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Asesu Cyswllt Cyngor Wrecsam ar 01978 292066.

Dewisiadau Tai ar gyfer Pobl Ifanc Sydd Angen Cefnogaeth

Cyntedd

Mae Cyntedd Wrecsam yn darparu llety am hyd at 2 flynedd i bobl sengl ddigartref rhwng 16 a 25 oed. Nodau'r prosiect yw rhoi cymorth cysylltiedig â thai i'r unigolion wrth ddatblygu sgiliau byw, gan gynnwys cyllidebu, coginio, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, cyn symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rhedeg y Cyntedd ac mae'n agos at ganol tref Wrecsam.

I gael gwybod mwy, cysylltwch ag Uwch-swyddog Prosiect Cyntedd Wrecsam ar 01978 262222.

Hurst Newton

Mae Hurst Newton yn darparu llety am hyd at 2 flynedd i bobl sengl ddigartref rhwng 16 a 25 oed. Nod y prosiect yw rhoi cefnogaeth a chymorth i'r unigolyn wrth ddatblygu sgiliau bywyd gan gynnwys cyllidebu, coginio, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, cyn symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rhedeg Hurst Newton ac mae o fewn tafliad carreg i ganol tref Wrecsam.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uwch-swyddog Prosiectau yn Hurst Newton ar 01978 363761 neu dîm Dewisiadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 01978 292949 neu 01978 292937.

Hafan

Mae Hafan yn darparu llety byrdymor i bobl sengl ddigartref rhwng 16 a 25 oed y mae'r awdurdod lleol yn penderfynu sydd mewn angen dybryd o gartref. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rhedeg Hafan a daw holl gyfeirebau oddi wrth dîm Dewisiadau Tai Cyngor Wrecsam. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â hwy ar 01978 292949 neu 01978 292937, neu gallwch gysylltu â Hafan yn uniongyrchol ar 01978 268110.

Preswylfa

Mae Preswylfa'n darparu llety ar gyfer merched beichiog neu famau gyda babanod a phobl ddigartref 16 oed a hyn. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rhedeg Preswylfa a daw holl enwebiadau am lety oddi wrth dîm Dewisiadau Tai Cyngor Wrecsam. Cysylltwch â hwy ar 01978 292949 neu 01978 292937.

Partneriaeth Cwmpawd Barnardo

Mae Cwmpawd yn cynnig cyngor a chymorth i gael hyd i lety ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16-25 oed. Maent yn cynnig Cynllun Bond Gwarantu y bydd landlordiaid yn ei dderbyn yn lle blaendal. Maent hefyd yn cynnig cefnogi tenantiaid a theuluoedd i bobl ifanc sydd â'u cartrefi eu hunain, fel eu bod yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Barnardo ar 01978 315130 neu e-bostio compasspartnership@barnardos.org.uk

Hafan Cymru

Mudiad elusennol sy'n gweithredu ar hyd a lled Cymru yw Hafan Cymru, yn darparu gwasanaethau tai a chymorth i ferched, dynion a'u plant, yn enwedig y rhai'n dianc rhag Camdriniaeth Deuluol. Maent hefyd yn rhedeg prosiect llety gyda chymorth yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ganddynt yn Wrecsam, cysylltwch â Hafan Cymru ar 01978 823077.

Tai Eraill gyda Chymorth

Cylch Allweddi

Mae Cylch Allweddi'n gweithio gyda phobl ddiamddiffyn a theuluoedd sydd ag anabledd dysgu ysgafn i gymedrol. Mae Gweithwyr Byw yn y Gymuned Cylch Allweddi'n rhoi cefnogaeth i 3 rhwydwaith o oedolion diamddiffyn yn Wrecsam er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol.

Mae gan Cylch Allweddi wirfoddolwr lleol ymhob ardal sy'n byw o fewn 10 munud ar draed o bob aelod o'r rhwydwaith i gynnig cefnogaeth pan fo angen. Mae gweithiwr cefnogaeth gymunedol a chefnogaeth aelodau eraill y rhwydwaith yn cefnogi hyn. Mae'r holl gefnogaeth dan arweiniad aelodau a chaiff cynllun cymorth unigol ei lunio gydag aelodau i alluogi datblygiad personol a chymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chylch Allweddi ar 07976 854831.

CAIS

Mudiad gwirfoddol CAIS yw rhoi amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Maent yn cynnig nifer o brosiectau yn Wrecsam i bobl sydd angen cefnogaeth, rhai ohonynt yn gallu cynnig llety gyda chymorth am hyd at 2 flynedd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r mudiad ar 01978 367030

Nacro

Elusen genedlaethol lleihau troseddau yw Nacro sy'n gweithio gyda chyn-droseddwyr a phobl dan anfantais. Mae Nacro'n rhedeg nifer o wasanaethau yn Wrecsam gan gynnwys cartrefu cyn-droseddwyr a phobl ddigartref diamddiffyn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Nacro ar 01978 314313.

Ty Sant Ioan a Thy Richmond

Mae Ty Sant Ioan yn darparu gwasanaeth uniongyrchol i unigolion digartref dan reolaeth The Wallich ac mae'n cynnig cartref diogel, sicr, dros dro mewn llety ar y cyd ynghyd â chynllun datblygu personol unswydd a chynhwysfawr ar gyfer yr holl breswylwyr, yn amlinellu sut maent eisiau i'w bywydau newid a sut mae eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety ar gyfer 6 o unigolion 18 oed a hyn a chaiff ei staffio 24 awr y dydd. Mae'r prosiect yn cynnig preswylfeydd tymor byr i ganolig yn barod ar gyfer ailsefydliad i gartrefi parhaol ac mae'n helpu pobl gydag anghenion penodol a phroblemau sy'n cael eu hachosi neu waethygu gan ddigartrefedd. Mae Sant Ioan yn cefnogi pobl ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol ac mae'n hwyluso mynediad at wasanaethau eraill fel gofal iechyd,

hyfforddiant neu addysg. Mae Ty Richmond yn cynnwys 5 o fflatiau un ystafell hunangynhwysol sy'n ychwanegol at Sant Ioan ac yn cefnogi preswylwyr sydd ymhellach ar hyd eu taith at fyw'n annibynnol. Caiff cefnogaeth ei rhoi 24 awr gyda gwasanaeth cynhwysfawr ar gael i holl drigolion ar alwad.

I gysylltu â Thy Sant Ioan, ffoniwch 01978 355155 neu e-bostio st.johns@thewallich.net

Digartrefedd

Os ydych yn ddigartref neu dan fygythiad mynd yn ddigartref, cysylltwch â'r tîm Dewisiadau Tai ar 01978 292949 neu 01978 292937. Fe all llety mewn argyfwng fod ar gael i bobl gymwys.

Tŷ Nos

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rhedeg lloches Ty Nos gan gynnig llety dros dro dros nos, bwyd a chyfleusterau ymolchi i bobl dros 18 oed sydd heb unrhyw le parhaol i fyw. Mae'r lloches ar agor o 8pm yn hen Ganolfan Gymunedol Maes y Dre ar Ffordd Holt, Wrecsam.

Achub y Teulu

Mae Achub y Teulu'n rhoi cymorth i deuluoedd digartref a lle i alw'n gartref cyhyd ag y bydd ei angen iddynt gael eu traed tanynt. Maent yn rhwydwaith cefnogi a theulu estynedig i'r rhai hynny sydd efallai erioed wedi cael rhywun i droi atynt neu ddibynnu arnynt, gyda chymorth yn parhau ar ôl i'r teuluoedd adael eu llety. Mae ganddynt 6 eiddo o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn benodol ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu hunain yn ddigartref.

Mae Achub y Teulu'n rhoi grym i deuluoedd frwydro eu ffordd allan o argyfwng trwy greu cymuned ddiogel sy'n darparu hyfforddiant a rhaglenni addysgol i'w paratoi ar gyfer y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Achub y Teulu ar 01244 813562 neu ymwelwch â'u gwefan yn www.savethefamily.uk.com

Adran B – Cefnogaeth a Chyngor

Shelter Cymru

Mae Shelter Cymru'n cynnig amrywiaeth o gyngor ar dai ac eiriolaeth i unrhyw un sydd angen cymorth neu'n chwilio am ragor o wybodaeth am dai neu faterion cysylltiedig â dyled. I gael gwybod mwy, cysylltwch â Shelter Cymru ar 01978 317911.

Cefnogi Tenantiaid Rhentu Preifat

Os ydych mewn eiddo preifat ar rent efallai nad ydych yn gwybod am eich hawliau o ran eich tenantiaeth. Mae gwybodaeth a chefnogaeth ar gael i denantiaid rhentu preifat sydd efallai'n cael anawsterau gyda'u landlordiaid. Gallwch gysylltu â Shelter Cymru ar 01978 317911 neu Brosiect Cwmpawd ar 01978 315137 i gael rhagor o wybodaeth. Os ydych dan 25 gallwch gysylltu â Response ar 01978 314314. Gallwch hefyd gysylltu â'r tîm Dewisiadau Tai ar 01978 292937 neu 01978 292949.

Mae tîm Safonau Tai Cyngor Wrecsam yn rheoleiddio cyflwr tai rhentu preifat gan gynnwys tai amlfeddiannaeth ac efallai y gall eich helpu os oes gennych broblemau gyda chyflwr eich eiddo. Eu rhif cyswllt yw 01978 315300.

Cynllun Cefnogi Sipsiwn a Chrwydriaid

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn gweithio gyda sipsiwn a chrwydriaid i ddarparu cymorth rheolaeth tai ychwanegol i deuluoedd ac unigolion sydd angen cymorth gyda chynnal eu tenantiaethau'n llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth ar gael i sipsiwn a chrwydriaid sy'n penderfynu ymgartrefu mewn ty neu os oes ganddynt gytundeb deiliadaeth yn rhywle arall. Gall y gefnogaeth gynnwys cynorthwyo gyda materion fel cyngor ar fudd-daliadau, rhent a biliau gwasanaethau. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Tîm Tai â Chymorth yng Nghymdeithas Tai Clwyd ar 0345 230 3140.

Aflonyddu / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Dylai eich cartref fod yn lle diogel i'w fwynhau. Eich hawl chi yw byw mewn heddwch a diogelwch heb i ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymdogion aflonyddol effeithio arnoch.

Os yw niwsans swn yn effeithio arnoch, gallwch gysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Wrecsam ar 01978 298989.

Os ydych chi'n denant y Cyngor neu Gymdeithas Dai ac yn dioddef aflonyddwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich eiddo, neu os yw pwy bynnag sy'n achosi'r niwsans yn denant y Cyngor neu Gymdeithas Dai, gallwch gysylltu â'r Cyngor neu Gymdeithas Dai a/neu'r Heddlu i'w hysbysu.

O ran tenantiaid y Cyngor, cysylltwch â'ch swyddfa dai leol (mae manylion cysylltu yn Adran C y llyfryn hwn).

Os ydych yn denant Cymdeithas Dai, mae'r rhifau cyswllt isod:
Clwyd Alyn: 0800 183 5757
Cymru a'r Gorllewin: 0800 052 2526
Cymdeithas Tai Clwyd: 0345 230 3140

Gallwch hefyd gysylltu â'r Heddlu ar 0845 607 1002 neu Crimestoppers ar 0800 555 111.

Gwasanaeth Datrys Gwrthdaro

Mae'r Gwasanaeth Datrys Gwrthdaro yn rhoi cefnogaeth annibynnol, ddiduedd a chydgyfrinachol i helpu unigolion weithio drwy broblemau mewn teuluoedd sy'n gallu arwain at wahardd o'r cartref teuluol. Mae'r gwasanaeth ar gael hefyd i rai dan amgylchiadau eraill lle mae gwrthdaro yn y cartref fel anhawster gyda chymdogion. Bydd y cyfryngwr yn cyfarfod â'r ddwy ochr ar wahân neu gyda'i gilydd fel y bo'n briodol i gael cyfaddawd sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

The Wallich sy'n rhedeg y gwasanaeth ac mae ar gael i bawb dros 16 oed. Mae cyfeirebau ar gael trwy'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai yng Nghyngor Wrecsam ar 01978 292937 neu 01978 292949.

Trais Teuluol

Hafan Cymru

Mudiad elusennol yw Hafan Cymru (Cymdeithas Tai Hafan gynt) sy'n gweithredu ar hyd a lled Cymru, yn darparu gwasanaethau tai a chymorth i ferched, dynion a'u plant, yn enwedig y rhai'n dianc rhag Camdriniaeth Deuluol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ganddynt yn Wrecsam, cysylltwch â Hafan Cymru ar 01978 823077.

Cymorth i Fenywod Wrecsam

Mae Cymorth i Fenywod Wrecsam yn cynnig am ddim, gwasanaeth anfeirniadol a chydgyfrinachol sy'n rhoi gwybodaeth, cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ferched a'u plant sydd wedi dioddef, neu sy'n dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, rhywiol neu ariannol. Maent yn darparu gwasanaeth cynhwysol ar gyfer holl ferched; gyda phlant a hebddynt, heb ystyried hil, oed, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol na chredau crefyddol. Mae ganddynt loches hefyd sy'n cynnig llety diogel dros dro, gyda chymorth ailsefydlu ar gael i ferched sy'n gadael y lloches.

Mae Cymorth i Fenywod Wrecsam hefyd yn cynnal cymorth yn y maes a rhaglen ryddid, yn ogystal â chanolfan alw heibio; y cyfan ohonynt yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol i ferched sy'n dioddef camdriniaeth deuluol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chymorth i Fenywod ar 01978 310203 (24 awr) neu ymweld â'u gwefan: www.wrexhamwomensaid.org.uk neu ffoniwch Linell Gymorth Camdriniaeth Deuluol Cymru ar 0808 801 0800 (mae galwadau am ddim o dirwifren).

BAWSO

Mudiad gwirfoddol yw BAWSO, sy'n darparu gwasanaethau cyfannol arbenigol i Ferched Duon a Lleiafrifol Ethnig a'u plant, sydd eisoes, neu fae ar fin bod, yn ddigartref oherwydd bygythiad o gamdriniaeth deuluol, neu sy'n dioddef neu'n ffoi rhag camdriniaeth deuluol yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â Chymorth i Fenywod yng Nghymru ac mae'n gweithio'n agos ac mewn partneriaeth gyda mudiadau eraill cynorthwyo merched.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â BAWSO ar 01978 355818 neu e-bost: wrexham@bawso.org.uk

Prosiect Dyn

Mae Prosiect Dyn yn rhoi cefnogaeth a chyngor i ddynion sy'n yn dioddef camdriniaeth deuluol gan bartner. Mae modd eu cysylltu â'r prosiect ar 0808 801 0321.

Mae cyfeiriadur o Gynlluniau Cymorth Tai yn Wrecsam i'w gael ar wefan Cyngor Wrecsam www.wrecsam.gov.uk dan Tai / Eich cefnogi i fyw gartref.

Aros yn eich cartref eich hun

Efallai eich bod eisiau aros yn eich cartref eich hun ond yn cael anawsterau dod i ben gyda'ch eiddo oherwydd anabledd, materion ariannol neu afiechyd. Fe all fod ffyrdd o'ch cefnogi i aros yn eich cartref heb orfod symud.

Isod mae peth gwybodaeth all fod o gymorth i chi os eisiau aros yn eich eiddo presennol.

Beth i'w wneud os ydych yn wynebu dadfeddiannu neu ailfeddiannu

Os ydych yn ei chael yn anodd talu eich rhent neu forgais ac yn mynd i ddyled, neu os ydych yn wynebu ailfeddiannu fe all fod rhywfaint o gymorth i'w gael er mwyn i chi allu aros yn eich cartref eich hun. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Dewisiadau Tai Cyngor Wrecsam ar 01978 292949 neu 01978 292937. Gallwch hefyd gysylltu â Shelter ar 01978 317911 neu, os ydych dan 25, gallwch gysylltu â Response ar 01978 314314.

Offer ac Addasiadau

Os oes gennych anabledd efallai y gallwch gael cymorth i wneud eich cartref yn fwy addas ar gyfer eich anghenion. Mae'r llyfryn 'Addasu eich Cartref' sy'n cael ei gyhoeddi gan Gyngor Wrecsam yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y cymorth sydd i'w gael. Isod mae rhagor o gyngor ar rai o'r grantiau sydd ar gael.

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae Grantiau Cyfleusterau I'r anabl ar gael am amrywiaeth o waith sydd ei angen i helpu rhywun anabl ddal i fyw'n annibynnol gartref. Mae hyn yn cynnwys mynediad at amwynderau hanfodol fel y toiled a'r ystafell ymolchi a chyfleusterau cegin, ac addasu offer rheoli gwresogi, goleuo neu gyflenwad trydan i'w gwneud yn addas i'w defnyddio.

Mae grantiau ar gael i bobl o bob oed, gydag anabledd neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Heblaw yn achos plentyn gydag anabledd, bydd prawf adnoddau ariannol ar rywun sy'n gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl i weld a yw'r ceisydd yn gorfod cyfrannu at gostau'r gwaith. Os ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi'n ei chael yn anodd symud o gwmpas yn eich cartref, neu'n cael anhawster gyda chyfleusterau ymolchi yn y cartref oherwydd salwch / anabledd, yna'r cam cyntaf yw cysylltu â Thîm Asesiad Cyswllt yr adran Gofal Cymdeithasol Oedolion, ar 01978 292066. Byddant yn trosglwyddo eich cais i'r tîm Therapi Galwedigaethol fydd yn cysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth. Bydd eich cyfeireb yn cael blaenoriaeth yn ôl eich anghenion a bydd aelod o'r tîm Therapi Galwedigaethol yn trefnu i'ch asesu.

Mân Addasiadau

Mae modd darparu rhai addasiadau am gyfnod byrrach na Grant Cyfleusterau i'r Anabl trwy grant mân addasiadau. Caiff Cymorth Mân Addasiadau ei ddyfarnu ar sail ddewisol i bob math o denantiaeth (heblaw tenantiaid Cymdeithasau Tai) i dalu am addasiadau cymhwysol i'w cartref. Rhaid bod â Chynllun Gofal Addasiadau wedi'i gynhyrchu gan aelod o'r tîm Therapi Galwedigaethol i gefnogi holl geisiadau am Gymorth Mân Addasiadau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Adnewyddu Tai Cyngor Wrecsam ar 01978 315300.

Cymorth arall i fyw'n annibynnol

Age Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae Age Gogledd-ddwyrain Cymru'n cefnogi pobl hyn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y byddant yn dewis gwneud hynny. Trwy eu prosiect 'Options', maent yn rhoi cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain sydd dros 50 oed a allai fel arall fod angen mwy o gymorth gwasanaethau ffurfiol.

Gall unrhyw un roi cyfeireb at y prosiectau hyn, cyn belled â bod hynny gyda chaniatâd pwy bynnag sy'n cael eu cyfeirio. Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn gydgyfrinachol.

I gael gwybod mwy, cysylltwch ag Age Cymru ar 08450 549822.

Teleofal ac Ymateb Symudol

Gwasanaeth yw Teleofal sy'n gallu helpu eich cadw'n ddiogel gartref a galluogi galw am gymorth os digwydd argyfwng. Mae gwasanaeth teleofal yn darparu cyswllt ffôn 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn rhwng eich cartref a Chanolfan Ymateb Teleofal. Gall Teleofal helpu i chi fyw'n annibynnol yn eich cartref trwy roi'r tawelwch meddwl bod modd rhybuddio rhywun yn awtomatig os byddwch angen cymorth neu os digwydd argyfwng.

Caiff Teleofal ei redeg mewn partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a ChesterCare. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y gwasanaeth, ffoniwch 01978 292075.

Gwybodaeth Ariannol

Budd-dal Tai a Lwfans Tai Lleol

Os ydych ar incwm isel yna efallai y bydd gennych hawl i gymorth tuag at dalu eich rhent a threth y cyngor. I fod â hawl i Fudd-dal Tai rhaid i chi fod yn talu rhent ar yr eiddo lle'r ydych yn byw.

Mae Lwfans Tai Lleol (LHA) yn berthnasol i holl denantiaid preifat sy'n hawlio Budd-dal Tai. Caiff ceisiadau eu cyfrif trwy ddefnyddio cyfraddau LHA sy'n cael eu darparu bob mis gan y Swyddog Rhenti.

Fel arfer mae Budd-dal Tai'n dechrau o'r dydd Llun yn dilyn dyddiad cyflwyno'r cais. Felly, mae'n bwysig nad ydych yn oedi cyn dychwelyd eich ffurflen hawlio.

Mae ffurflenni cais i'w cael o'r isadran Budd-dal Tai, unrhyw swyddfa dai leol neu Galw Wrecsam.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Isadran Budd-dal Tai ar 01978 292033 neu ymwelwch â'n gwefan www.wrexham.gov.uk/benefits

Hawliau Lles

Mae'r tîm Hawliau Lles yn rhoi cyngor a chymorth ar hawlio budd-daliadau sydd gennych hawl iddynt efallai. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01978 298254.

Cyngor ar Ddyled

Os ydych yn ymgodymu gyda dyled mae sefydliadau fydd efallai'n gallu eich helpu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Wrecsam ar 01978 364639. Gall y Llinell Ddyled Genedlaethol eich helpu hefyd a gallwch gysylltu â hwy ar 0808 808 4000.

Adran C – Manylion Cysylltu

Swyddfeydd Stadau Lleol Cyngor Wrecsam:

Swyddfa Stad Broughton
27 Ffordd Derby
Bryn-teg
LL11 6LW
01978 722020

Swyddfa Stad Caia
7 Rhodfa Churchill
Wrecsam
LL13 9HH
01978 317040

Swyddfa Stad Gwersyllt
2 Lôn yr Ysgubau
Gwersyllt
LL11 4EU
01978 722100

Swyddfa Stad Plas Madoc
50 Peris
Plas Madoc
LL14 3LF
01978 813000

Swyddfa Stad y Rhos
Ty'r Orsaf, Heol yr Afon
Rhosllannerchrugog
LL14 2ED
01978 832900

Swyddfa Ganolog Wrecsam
Swyddfa Ganolog
Wrecsam
LL11 1WH
01978 292062

Gwasanaethau Eraill y Cyngor:

Gwasanaethau Tai
Ffordd Rhuthun
Wrecsam
LL13 7TU
01978 315300
housing@wrexham.gov.uk

Gwasanaeth Digartrefedd
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1WH
01978 292947/292949/292937
Allan o oriau: 01978 264240

Gofal Cymdeithasol Oedolion
Adeiladau'r Goron
Stryt Caer
Wrecsam
LL13 8BG
01978 292066
socialservices@wrexham.gov.uk

Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol
Adeiladau'r Goron
31 Stryt Caer
Wrecsam
LL13 8ZE
01978 292066

Cymdeithasau Tai Lleol

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Cyf
72 Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JD
Ffôn: 0800 183 5757
www.clwydalyn.co.uk

Cymdeithas Dai Wales & West
Uned 2, Parc Busnes Acorn
Ffordd yr Aber
Y Fflint
CH6 5YN
Ffôn: 0800 052 2526
www.wwha.net

Cymdeithas Tai Clwyd
54 Stryd Y Dyffryn
Dinbych
LL16 3BW
Ffôn: 0345 230 3140
www.taiclwyd.com

Cymdeithas Dai Habinteg
(Darparu tai i bobl gydag anawsterau symud yn unig)
Swyddfa Ranbarthol, Beech House
Woodland Park
Bradford Road
Chain Bar
Bradford
BD19 6BW
Ffôn: 0845 6023626
www.habinteg.org.uk

Cymdeithas Abbeyfield (Wrecsam) Cyf.
(Darparu tai i bobl hyn)
Ail Llawr, 30 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LR
Ffôn: 01978 364294
www.abbeyfield.com

Cyrff Eraill

Shelter Cymru
Blwch Post 2293
Wrecsam
LL11 0FB
Ffôn: 0845 075 5005
01978 317911

Age Gogledd-ddwyrain Cymru
2, Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
CH7 1AP
Ffôn: 08450 549822

Cyntedd Wrecsam
Ffordd y Cilgant
Wrecsam
LL13 8HF
Ffôn: 01978 262222

Hurst Newton
Ffordd y Bers
Wrecsam
LL14 4HD
Ffôn: 01978 363761

Hafan
Cyntedd Wrecsam
Ffordd y Cilgant
Wrecsam
LL13 8HF
Ffôn: 01978 268110

Preswylfa
Cyntedd Wrecsam
Ffordd y Cilgant
Wrecsam
LL13 8HF
Ffôn: 01978 268109

Partneriaeth Cwmpawd Barnardo
2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam
LL11 1BU
Ffôn: 01978 315130
compasspartnership@barnardos.org.uk

Hafan Cymru
Siambrau Banc Midland
Stryd Fawr
Rhiwabon
Wrecsam
LL14 6AA
Ffôn: 01978 823077

Cylch Allweddi
Blwch Post 2172
Wrecsam
LL13 0WH
Ffôn: 07976 854831

CAIS
Grove Park House
Ffordd Parc y Llwyni
Wrecsam
LL12 7AA
Ffôn: 01978 367030

Nacro
35 Chester Street
Wrecsam
LL13 8AH
Ffôn: 01978 314313

Ty Sant Ioan
Ffordd Caer
Wrecsam
LL12 7AX
Ffôn: 01978 355155
Ffacs: 01978 361991
st.johns@thewallich.net

Tŷ Nos
Ffordd Holt
Wrecsam
LL13 7LU
Ffôn: 01978 291274

Cymorth i Fenywod Wrecsam
6 Rhes y Deml
Wrecsam
LL13 8LY
Ffôn: 01978 310203

BAWSO
33 Ffordd Grosvenor
Wrecsam
LL11 1BT
Ffôn: 01978 355818
Wrexham@bawso.org.uk

Prosiect Dyn
Ffôn: 0808 801 0321

Achub y Teulu
Plas Bellin
Lôn Oakenholt
Pentre-moch
Sir y Fflint
CH7 6DF
Ffôn: 01244 813562
info@savethefamily.uk.com
www.savethefamily.uk.com